



## Sesiwn frifio ar y Cyd-grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc

### Cam-drin Domestig: ei effaith ar blant, gwasanaethau yng Nghymru a'r hyn yr ydym yn ei alw amdano

#### Cyflwyniad

Mae cam-drin domestig yn effeithio ar nifer o bobl ledled Cymru. Canfu Ymchwil Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod Iechyd Cyhoeddus Cymru fod 16% o oedolion yng Nghymru wedi eu magu mewn tŷ gyda thrais domestig<sup>1</sup>. Mae profi cam-drin domestig yn y cartref yn gallu cael effaith ddifrifol blant a phobl ifanc. Canfu NSPCC fod 1 ym mhob 5 o blant wedi dod i gysylltiad â cham-drin domestig<sup>2</sup> a bod 130,000 o blant a phobl ifanc yn y DU yn byw gyda cham-drin domestig risg uchel<sup>3</sup>. Yn gynyddol, mae ymarferwyr wedi cydnabod nad yw plant yn 'dystion goddefol neu eilaidd' o drais yn y cartref, ond yn hytrach maent yn dioddef yn uniongyrchol ochr yn ochr â'u rhiant nad ydynt yn cam-drin. Caiff plant ynghyd â'u rhiant nad ydynt yn cam-drin eu rheoli a'u bygwth, a chyfyngir ar eu 'gofod gweithredu' gan gam-drin domestig. Cafodd y niwed a achosir os yw plentyn yn gweld neu'n clywed cam-drin domestig ei gydnabod yn y gyfraith fel niweidiol i blant am y tro cyntaf yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Fel yr eglura Dr Emma Katz; *'Coercive control places children in isolated, disempowering and constrained worlds which can hamper children's resilience and healthy development and contribute to emotional and behavioural problems'*<sup>4</sup>.

Mae cam-drin domestig yn digwydd o fewn y cyd-destun ehangach o drais yn erbyn menywod a merched. Mae'n digwydd yn fwy aml i fenywod, oherwydd eu bod yn fenywod. Yn ei dro, gall plant gael eu defnyddio gan y cyflawnwr yn y cyd-destun hwn i gynnal pŵer; drwy fygwth eu diogelwch, bygwth achwyn am y fam i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol neu drwy danseilio gallu'r fam fel rhiant.

#### Effaith cam-drin domestig ar blant

Mae cam-drin domestig yn brofiad niweidiol yn ystod plentynod. Mae traean o blant sy'n gweld cam-drin domestig hefyd yn dioddef ffurf arall ar gam-drin<sup>5</sup> ac yng Nghymru, roedd 25% o blant yn derbyn gofal a chymorth oherwydd cam-drin domestig rhienioli yn 2017<sup>6</sup>. Yn Lloegr, canfu dadansoddiad o adolygiadau achosion difrifol fod cam-drin domestig yn ffactor mewn mwy na hanner yr adolygiadau achosion difrifol, er nad yw'r math hwn o ddata ar gael i Gymru<sup>7</sup>. Dengys y dystiolaeth y gall dioddef cam-drin domestig fel plentyn:

- Arwain at fywydau teuluol hynod gyfyngol a chaeth
- Effeithio'n negyddol ar iechyd a lles meddyliol
- Arwain at wlychu'r gwely, cynnydd yn y risg o gael eu bwlio, hunan-niweidio a meddyliau am ladd eu hunain

<sup>1</sup> Bellis, M. et al (2015) Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentynod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg poblogaeth Cymru sy'n oedolion Iechyd Cyhoeddus Cymru

<sup>2</sup> <https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/domestic-abuse/>

<sup>3</sup> <https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/domestic-abuse/domestic-abuse-facts-statistics/>

<sup>4</sup> <https://avaproject.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Emma-Katz-2016.pdf>

<sup>5</sup> Radford, L. et al. (2011) [Child abuse and neglect in the UK](#). NSPCC

<sup>6</sup> <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/parentalfactorsofchildrenreceivingcareandsupport-by-measure-year>

<sup>7</sup> Sidebotham, P. et al (2016) [Pathways to harm, pathways to protection: a triennial analysis of serious case reviews 2011 to 2014](#)



Children in Wales  
Plant yng Nghymru

**NSPCC**  
CYMRU | WALES



Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

- Achosid iddynt bellhau oddi wrth deulu a ffrindiau
- Arwain at blant a phobl ifanc yn dangos ymddygiad heriol
- Arwain at anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion iechyd meddwl

### Cyd-destun polisi Cymru

Mae nifer o feysydd polisi sy'n berthnasol i gam-drin domestig wedi cael eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn 2015 cyflwynodd y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfwriaeth i wella'r ymateb drwy'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Mae'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldeb ar y sector cyhoeddus i ymateb i drais a cham-drin, gan gynnwys drwy'r fframwaith Gofyn a Gweithredu<sup>8</sup>. Mae'r Ddeddf yn cydnabod plant a phobl ifanc fel dioddefwyr o gam-drin domestig. Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: Fframwaith Cyflawni Traws-lywodraethol 2018 - 2021 yn cydnabod bod gweld trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu cael effaith fawr ar blant a phobl ifanc a gall effeithio ar eu diogelwch, iechyd a lles a chyrhaeddiad addysgol<sup>9</sup>. Ym mis Ionawr, cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Cam-drin Domestig gerbron y senedd, er bod y rhan fwyaf o'r bil yn canolbwyntio ar feysydd sydd wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru, yn hanfodol mae'n gwahardd camdrinwyr rhag croesholi eu dioddefwyr yn y llysoedd teulu.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Erthygl 19 o CCUHP yn nodi bod rhaid i Lywodraethau wneud popeth i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag bob ffurf ar drais a cham-drin a sicrhau bod cymorth ar gael i blant a phobl ifanc sy'n cael eu niweidio gan drais a cham-drin. Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - 2016 - 2021<sup>10</sup> yn darparu fframwaith ar gyfer atal, amddiffyn a chefnogi pob dioddefwr, gan gynnwys plant, sy'n sicrhau bod gan blant hawliau i gael eu hamddiffyn a derbyn cymorth i wella o gam-drin domestig<sup>11</sup>.

### Darpariaeth Gwasanaethau yng Nghymru

Mae yna fwlch rhwng bwriad polisi'r Ddeddf/Strategaeth Genedlaethol a darpariaeth gwasanaethau i blant sydd wedi goroesi ledled Cymru. Dywed aelodau Cymorth i Ferched Cymru fod cyllid ar gyfer darpariaeth i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig yn afreolaidd ac anghyson. Nid oes gan nifer o aelodau Cymorth i Ferched Cymru gyllid penodol ar gyfer darpariaeth i blant a phobl ifanc, ond maent yn ymdrechu i ymestyn eu hadnoddau er mwyn ymateb i anghenion plant drwy fodolau gwaith teulu. Ond mae tystiolaeth yn parhau i ddangos bod cyllid yn anaddas ar gyfer gwasanaethau uniongyrchol i blant ledled Cymru.

Dywedodd aelodau Cymorth i Ferched Cymru fod 266 o blant a phobl ifanc yn byw mewn lloches ym mhob chwarter o'r flwyddyn ddiwethaf ledled Cymru. Roedd hyn yn gynydd o 14% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a welodd cyfartaledd o 228 bob chwarter. O'r plant hyn, roedd 17% ar y gofrestr amddiffyn plant. Rhoddodd y llinell gymorth Byw Heb Ofn<sup>12</sup> gymorth i rieni oddeutu 3422 o blant a 29

<sup>8</sup> <https://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/ask-and-act?lang=en>

<sup>9</sup> <https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/181716-vawdasv-delivery-framework-en.pdf>

<sup>10</sup> ibidi

<sup>11</sup> <https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf>

<sup>12</sup> <https://livefearfree.gov.wales/about/?skip=1&lang=en>



Children in Wales  
Plant yng Nghymru

**NSPCC**  
CYMRU | WALES



Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

o blant a phobl ifanc a gysylltodd â'r llinell gymorth yn uniongyrchol<sup>13</sup>. Rhoddodd Wasanaeth ChildLine NSPCC 8,853 o sesiynau cwnsela i blant yr ydym yn gwybod eu bod yn byw yng Nghymru yn 2016/7<sup>14</sup>. O'r rhain, darparodd ChildLine 361 o sesiynau cwnsela yn ymwneud â cham-drin domestig: Roedd 241 o sesiynau cwnsela i blant a phobl ifanc yn ymwneud â cham-drin domestig gan rieni a 120 o sesiynau cwnsela i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn ymwneud â cham-drin domestig/gan bartner.

Yr hyn sy'n glir gan aelodau Cymorth i Ferched Cymru yw bod angen cymorth mwy dwys, arbenigol a therapiwtig i blant a phobl ifanc sy'n dioddef trais a cham-drin. Nid yw'n ddigon da nad yw darpariaeth gwasanaethau i blant ar gael yn gyson ledled Cymru. Er gwaethaf ymrwymadau gan Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn gwaith atal gyda phlant, mae nifer o wasanaethau arbenigol yn dweud mai cyllid blynyddol yn unig y maent yn ei gael ar gyfer gwaith plant (h.y. os ydynt yn derbyn unrhyw gyllid uniongyrchol o gwbl).

### **Strategaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Lleol**

Mae strategaethau VAWDASV lleol yn allweddol i sicrhau y gweithredir y Ddeddf VAWDASV (Cymru) yn effeithiol ym mhob ardal yng Nghymru. Dengys dadansoddiad o'r wyth strategaeth VAWDASV lleol fod bob un ohonynt yn cydnabod plant fel dioddefwyr o gam-drin domestig. Yn galonogol, mae pob cynllun yn blaenoriaethu ymyrraeth gynnar ac yn gweithio mewn ysgolion ar addysg perthnasoedd iach. Mae un cynllun yn cydnabod mai '*ychydig iawn o gymorth uniongyrchol a ddarperir i blant i fynd i'r afael ag effaith cam-drin domestig neu drais rhywiol o fewn eu hamgylchedd cartref*' ac mae un arall yn cydnabod yr angen am fwy o gwnsela a chymorth i blant. Er bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau yn blaenoriaethu sicrhau bod gan ddioddefwyr fynediad cyfartal at wasanaethau cymorth, nid oes yr un yn blaenoriaethu'n benodol datblygu neu sefydlu gwasanaethau cymorth i blant. Mae rhai strategaethau yn siarad am bwysigrwydd ymgysylltu â'r goroeswr, ond nid oes tystiolaeth o waith ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc.

### **Dylai lleisiau goroeswyr fod yn ganolog**

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cynnal ymchwil gyda'u sefydliadau sy'n aelodau a grwpiau ffocws a chyfweliadau un-i-un gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni. Drwy'r gwaith hwn, mae'r pwyntiau allweddol canlynol wedi cael eu codi gan oroeswyr a'u plant;

*Mae goroeswyr wedi gofyn am:*

- Wasanaethau arbenigol penodol i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan neu sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol, FGM, priodas orfodol, cam-fanteisio neu aflonyddu rhywiol, ym mhob ardal.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth ac ymateb gwell i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan weithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r system cyfiawnder teulu (CAFCASS Cymru, barnwyr a staff llysoedd, canolfannau cyswllt), a chyswllt diogel gyda rhieni/gofalwyr yn dilyn gwahanu, mewn achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Yr angen hanfodol i weithwyr proffesiynol ddeall yn well goblygiadau byw â cham-drin a thrais
- Cymorth gwell i blant a phobl ifanc mewn ysgolion a chymunedau

<sup>13</sup> Adroddiad Blynyddol Cymorth i Ferched Cymru (2018): Data gan wasanaethau arbenigol yng Nghymru, 2017/18.

Caerdydd: Cymorth i Ferched Cymru

<sup>14</sup> <https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/our-services/childline/>



Children in Wales  
Plant yng Nghymru

**NSPCC**  
CYMRU | WALES



Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

- Mynediad at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol mewn ymateb i anghenion plant
- Modelau rôl gwrywaidd cadarnhaol
- Addysg perthnasoedd iach

*Mae plant a phobl ifanc wedi gofyn am:*

- Weithwyr un-i-un dynodedig a all siarad â phlant a phobl ifanc am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt
- Mynediad at raglenni grŵp - dywedodd plant fod hyn wedi cael effaith gadarnhaol, gyda phlant yn teimlo'n "hapusach" ac yn "fwy hyderus" ar ôl mynychu rhaglenni grŵp.
- Mwy o weithgareddau a gemau
- Cytunodd 100% o'r plant a gymerodd ran y byddant yn elwa o wersi ar berthnasoedd iach mewn ysgolion

Mae goroeswyr yn amlwg yn galw am waith arbenigol penodol gyda phlant. Mae gwaith gyda phlant yn hanfodol i gyflawni newid hirdymor yng Nghymru a rhaid rhoi llais i blant a'u galluogi i gael mynediad at wasanaethau yn eu hawl eu hunain. Mae'n hollbwysig y gwrandewir ar brofiadau ac argymhellion plant a phobl ifanc. Mae rhaid i Lywodraeth Cymru, felly, yn eu hymrwymiad i weithio gyda phlant ystyried sut orau y gallant sicrhau y gwrandewir ar y lleisiau hyn ac y gellir gweithredu ar yr argymhellion.

Mae dioddef cam-drin yn cael ei ddwysáu gan ffactorau eraill, megis tlodi. Canfu Ymchwil gan Adroddiad Plant a Thlodi yng Nghymru, Plant yng Nghymru fod mesurau o dlodi, megis 'tlodi cymharol' yn seiliedig ar incwm y cartref, felly eithrir rhai aelodau o'r boblogaeth, megis menywod a phlant sy'n byw mewn llochesi<sup>15</sup>. Canfu'r adroddiad hefyd mai diwygio lles oedd un o'r materion mwyaf sy'n effeithio ar dlodi, ar 38%. Ar y cyd â diffyg tai fforddiadwy a chostau byw cynyddol. Mae pob un o'r rhain yn gallu gweithredu fel rhwystrau i adael partner sy'n cam-drin ac yn effeithio ar allu menywod a phlant i 'ffynnu' ar ôl i'r berthynas chwalu. Mae gallu cyflawnwyr i gam-drin yn economaidd fwy byth o dan y credyd uniongyrchol wedi cael ei ddogfennu'n dda<sup>16</sup> ac mae diffyg tai fforddiadwy yn arwain at ddiffyg llety addas i fenywod a phlant symud yno ar ôl gadael lloches. Mae pobl anabl ddwywaith fwy tebygol o ddioddef rhyw ffurf ar gam-drin domestig o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, ac maent hefyd yn gweld hi'n fwy anodd gadael eu sefyllfa bresennol gan mai eu camdriwiwr yw eu gofalwr. Mae'n anodd iawn gadael eiddo sydd wedi cael ei addasu neu rwydwaith cefnogaeth a all fod yn benodol iawn i anghenion corfforol.

<sup>15</sup> <http://www.childreninwales.org.uk/resource/child-family-poverty-wales-results-child-family-survey-2018/>

<sup>16</sup> <https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/work-and-pensions-committee/news-parliament-2017/universal-credit-domestic-abuse-report-publication-17-19/>



Children in Wales  
Plant yng Nghymru

**NSPCC**  
CYMRU | WALES



Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

## Yr hyn yr ydym yn galw amdano

### **1. Gwasanaethau penodol i blant a phobl ifanc sy'n dioddef cam-drin domestig**

Rydym eisiau i Grŵp Cyllid Cynaliadwy VAWDASV Llywodraeth Cymru weithio ag awdurdodau lleol, adrannau trawslywodraethol a'r sector arbenigol, gan gynnwys Cymorth i Ferched Cymru i ddod o hyd i gyllid ar gyfer y canlynol:

- Gweithwyr plant dynodedig mewn gwasanaethau lloches a chymunedol fel elfen sylfaenol i ddarparu gwaith chwarae a therapiwtig tra mae'r teulu mewn argyfwng
- Gwasanaethau arbenigol ym mhob rhanbarth yng Nghymru gyda gweithwyr proffesiynol sydd wedi eu hyfforddi'n briodol i ddarparu gwasanaethau therapiwtig i blant a phobl ifanc i'w galluogi i wella o'u profiadau a datblygu perthnasoedd iach yn y dyfodol.
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod gwasanaethau plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad o ddarpariaeth lloches

### **2. Strategaethau VAWDASV lleol**

Hoffem weld:

- Pob cynllun lleol yn cydnabod bod plant a phobl ifanc yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan drais ac yn ymrwmo i ymgynghori â phlant sydd wedi goroesi am y diogelwch a'r cymorth sydd eu hangen arnynt
- Strategaethau lleol i flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu darpariaeth gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc ym mhob rhanbarth yng Nghymru.
- Cydweithio agos rhwng Byrddau Diogelu Plant a phartneriaethau ac asiantaethau sy'n gweithio i atal trais domestig er mwyn sicrhau y caiff plant sy'n ddiodefwrwr ddiogelwch a chymorth effeithiol

### **3. Atal, Ymyrraeth Gynnar a Newid Diwylliannol**

- Rhaid i'r cwricwlwm ysgol newydd gynnwys addysg perthnasoedd iach orfodol a addysgir gan arbenigwyr fel bod gan ddisgyblion yr offer i allu adnabod VAWDASV
- Dylai pob sefydliad addysgol weithredu [dull addysg gyfan](https://livefearfree.gov.wales/guidance-for-professionals/advice-on-supporting-your-clients/supporting-clients-who-have-suffered-or-are-experiencing-domestic-abuse-and-sexual-violence/what-is-a-whole-school-education-approach/?lang=en)<sup>17</sup>, i hybu dysgu a herio perthnasoedd nad ydynt yn iach.

---

<sup>17</sup> <https://livefearfree.gov.wales/guidance-for-professionals/advice-on-supporting-your-clients/supporting-clients-who-have-suffered-or-are-experiencing-domestic-abuse-and-sexual-violence/what-is-a-whole-school-education-approach/?lang=en>